Canolfan Merched y Wawr
Stryd yr Efail
Aberystwyth
SY23 1JH
☎: 01970-624501
🖂: post@cymdeithas.cymru

cymdeithas yr iaith

13 Ionawr 2025

Annwyl Mr Drakeford

Ysgrifennaf atoch ar ran Pwyllgor Dysgwyr Cymdeithas yr Iaith Gymraeg er mwyn tynnu eich sylw at boblogrwydd cynyddol parhaol y cwrs Cymraeg ar Duolingo sy gyda 760 mil o ddysgwyr actif ar hyn o bryd[1]. Mae dros 3 miliwn o bobl wedi rhoi cynnig ar y cwrs ers 2016. [2]

Cafodd y cwrs ei ddatblygu gan dîm o ddarlithwyr ac athrawon Cymraeg, yn hollol wirfoddol, o 2015 tan 2021. Fel adnodd unigryw ac arloesol iawn mae'r cwrs Cymraeg ar Duolingo wedi gweddnewid y profiad o ddysgu'r iaith i nifer o gynulleidfaodd gan gynnwys:

a) disgyblion ysgol [3] [4]
b) oedolion sy'n dysgu Cymraeg [5]
c) dysgwyr rhyngwladol [6]
ch) pobl sy'n dysgu Cymraeg yn y gwaith [7]
d) Cymry Cymraeg ar wasgar [8]

Yn anffodus cafodd datblygiad y cwrs Cymraeg ar Duolingo ei atal ar ddiwedd 2023, ymhlith degau o gyrsiau lleiafrifol eraill er mwyn i Duolingo roi mwy o bwyslais ar ei brif gyrsiau. Ar y pryd dim ond cynnwys oedd yn cyfateb i lefelau A1, A2 a B1 (elfennau ohono) yn ôl graddfa y CEFR oedd wedi ei adio i'r cwrs Cymraeg ar Duolingo. Ein nod oedd creu cwrs a fyddai'n cyrraedd yr un nod â Llywodraeth Cymru am rugledd sylfaenol, h.y. lefel B2.

Erbyn hyn mae'n ymddangos bod Duolingo wedi ail-ddechrau datblygu ambell gwrs lleiafrifol eto, e.e. y cwrs Norwyeg sy wedi cael ei uwchraddio i gynnwys ymarferion siarad a nodiadau gramadeg mwy cyflawn.

Basai Pwyllgor Dysgwyr Cymdeithas yr Iaith, a channoedd o filoedd o ddysgwyr eraill, yn ddiolchgar iawn pe bai Llywodraeth Cymru yn barod i ddefnyddio ei chysylltiadau presennol gyda Duolingo (roedd Jeremy Miles wedi son amdanynt ym mis Tachwedd 2023 [9] ) i berswadio Duolingo i adael i'r cyfranwyr gwreiddiol orffen y cwrs Cymraeg.

Edrychaf ymlaen at glywed oddi wrthych.

Yr eiddoch yn gywir

Richard Morse

Swyddog Dysgwyr CYI

Copi: Dona Lewis, Prif Weithredwr Canolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol

Cyfeirnodau

1. Duolingo; cyrsiau i siaradwyr Saesneg
2. Duolingo; nifer sy wedi cofrestru ar y cwrs Cymraeg yn cyrraedd 3 miliwn
3. Duolingo; Cymraeg mewn ysgolion 1
4. Duolingo; Cymraeg mewn ysgolion 2
5. Duolingo; Oedolion sy'n dysgu Cymraeg
6. Duolingo; dysgwyr rhyngwladol
7. Duolingo; Staff yn dysgu Cymraeg
8. Duolingo; Cymry Cymraeg ar wasgar – Siân Phillips

Duolingo; llythyr Jeremy Miles